# Llythyr

Uned 5: Rhan 5 / Unit 5: Part 5

Darllenwch y llythyr yma.



19 Via Grande
56121 Pisa
Yr Eidal

30 Mai

Annwyl ffrind

Helo. Andrea ydw i. Dw i'n byw yn Yr Eidal a dw i'n mynd i'r ysgol yn Pisa. Dw i'n mynd i'r ysgol yn y bore - ond ddim yn y prynhawn. Mae'n boeth iawn yma. Mae'n heulog iawn.

Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed ar y traeth achos mae'n hwyl. Dw i'n hoffi nofio hefyd. Dw i'n gallu nofio 50 metr. Dw i'n hoffi nofio yn y pwll nofio ac yn y môr.

Dw i'n hoffi bwyta salad a melon dŵr. Wyt ti'n hoffi melon dŵr? Mae'n ffrwyth mawr, gwyrdd ond mae'r tu mewn yn goch. Mmmm, blasus iawn!

Wyt ti eisiau bod yn ffrind i fi?

Hwyl fawr

Andrea






| | |
|---|---|
| Mai | May |
| Yr Eidal | Italy |
| ddim | not |
| heulog | sunny |
| traeth | beach |
| gallu | to be able |
| pwll nofio | swimming pool |
| môr | sea |
| melon dŵr | water melon |
| ffrwyth | a fruit |
| tu mewn | inside |

Beth am ysgrifennu llythyr at Andrea?
Rhaid dweud:

- pwy
- ble - byw
- ble - ysgol
- hoffi - ble
- hoffi bwyta